I Weinidogion Cymru,

**Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013: Dyletswyddau Adrodd**

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler adroddiad blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot.

| | |
|---|---|
| Y camau gweithredu a gymerwyd i hyrwyddo teithio llesol | Lluniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot Fap Beicio newydd ar gyfer Bae Abertawe, mewn partneriaeth â Dinas a Sir Abertawe a chan ddefnyddio data o'r MLIP.<br><br>Yn unol â'r Ddeddf Teithio Llesol, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y MLIP drafft rhwng 21 Medi 2015 a 14 Rhagfyr 2015. Cyflwynwyd manylion llawn ynghylch hyrwyddo'r ymgynghoriad yn yr adroddiad a gyflwynwyd ar 21 Ionawr 2016 i: ActiveTravel@wales.gsi.gov.uk<br><br>Cynhaliodd y Tîm Diogelwch Ffyrdd nifer o weithgareddau i hyrwyddo Teithio Llesol gan gynnwys:<br><br>- CycleCraft (Hyfforddiant beicio ar y ffyrdd): 16 ysgol, 320 o ddisgyblion, disgyblion Blwyddyn 6.<br><br>- Ymwybyddiaeth Feicio: 8 ysgol, 707 o ddisgyblion o flwyddyn 3 i flwyddyn 6.<br><br>- Hyfforddiant Sgwteri: 8 ysgol gynradd, 799 o ddisgyblion.<br><br>- Hyfforddiant Beiciau Cydbwysedd: 4 ysgol gynradd, 161 o ddisgyblion y derbyn a blwyddyn 1.<br><br>- Beicio Cyfnod Sylfaen: 4 ysgol gynradd, 154 o ddisgyblion blwyddyn 1-2.<br><br>- Teithiau Cerdded Diogelwch Ffyrdd: 8 ysgol gynradd, 956 o ddisgyblion.<br><br>- Mae Diogelwch Ffyrdd yn cynnal cwis blynyddol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5, sy'n cael ei gynnig i bob ysgol gynradd yn CNPT. |

| | |
|---|---|
| | *Sylwer: mae ffigurau ysgolion yn seiliedig ar y flwyddyn academaidd Medi 2015 - Gorffennaf 2016.* |
| Y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig | Cyflwynwyd cynnig i'r **gronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau** er mwyn cyflwyno/gwella llwybr cerdded a beicio sy'n cysylltu'r Allt-wen â Llwybr Beicio Cenedlaethol 43 ym Mhontardawe.<br><br>Cyflwynwyd cynnig i **ERDF** i adeiladu 'Llwybr yr Harbwr', sef cyswllt cerdded a beicio newydd rhwng Gorsaf Parcffordd Port Talbot a Glannau'r Harbwr.<br><br>Cwblhawyd y ddau gynllun erbyn mis Mawrth 2016. |
| Costau a gafwyd ar gyfer llwybrau teithio llesol a chyfleusterau newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau perthnasol yn y flwyddyn lawn flaenorol. | **Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau**<br>Cyswllt yr Allt-wen: £90,000<br><br>**ERDF a Chastell-nedd Port Talbot**<br>'Llwybr yr Harbwr', Port Talbot: ERDF: £160,000<br>CNPT: £15,000 |

Yn ychwanegol at yr uchod (dewisol):

| | |
|---|---|
| Gwariant awgrymedig ar gyfer llwybrau a chyfleusterau theithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig, a ariannwyd neu a ariannwyd yn rhannol gan drydydd partïon. | Dd/B |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

| |
|---|
| Dd/B |

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi, yn unol â'r Canllawiau Cyflawni statudol.

Prif Weithredwr